# Y Pwyllgor Cynaliadwyedd

**SC(3)-18-10 : Papur 1, Atodiad A**

## Ymchwiliad i bolisïau Cynllunio yng Nghymru : Tystiolaeth gan y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai

### Enghreifftiau O Ddatblygu Meysydd Polisi Cynllunio Allweddol

### 1.Cyflwyniad

1.1Caiff polisi cynllunio cenedlaethol ei ddiweddaru pan fydd yn hen neu y bydd angen ei gysoni.   Mae'r atodiad hwn yn rhoi enghreifftiau o sut mae dylanwadau allanol wedi arwain at newidiadau i'r polisi cynllunio ar lefel genedlaethol, sydd bellach yn cael eu cyflwyno ar lefel leol drwy Gynlluniau Datblygu Lleol, ac mae hefyd yn rhoi mwy o fanylion am wreiddiau'r newidiadau i'r polisi cenedlaethol, trosolwg o'r polisi a syniad o’r canlyniadau fydd i’w gweld yn sgîl y polisi.

### 2.Newid yn yr Hinsawdd

2.1Mae polisïau cynllunio Llywodraeth y Cynulliad o ran newid yn yr hinsawdd yn rhedeg drwy'r polisïau a'r canllawiau cynllunio cenedlaethol. Mae hyn yn cynnwys:

Polisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 3 Gorffennaf 2010)

Pennod 4, Adran 4.2 Cynllunio ar gyfer y newid yn yr hinsawdd

Pennod 12, Adran 12.8 Cynllunio ar gyfer ynni cynaliadwy

Pennod 13, Adran 13.2 Perygl llifogydd a’r newid yn yr hinsawdd

TAN 8 Cynllunio ar gyfer Ynni Adnewyddadwy (2005)

TAN 12 Dylunio (2009)

TAN 15 Datblygu a Pherygl o Lifogydd (2004)

TAN 22 Cynllunio ar gyfer Adeiladau Cynaliadwy (2010)

2.2Ymysg y ffactorau allweddol sy’n llywio polisi mae

Protocol Kyoto

Deddf Newid yn yr Hinsawdd 2008

Cyfarwyddeb Ynni Adnewyddadwy'r UE

Strategaeth Ynni Adnewyddadwy'r DU

Chwyldro Carbon Isel - Datganiad Polisi Ynni Cymru

Strategaeth Newid yn yr Hinsawdd (drafft)

Cynllun Gweithredu Microgynhyrchu

Dyhead di-garbon

2.3Amcanion Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer newid yn yr hinsawdd fel y'u nodir ym 'Mholisi Cynllunio Cymru' yw:

hybu patrymau anheddu sy’n defnyddio adnoddau’n effeithlon ac sy'n gwrthsefyll newid yn yr hinsawdd;

cefnogi'r angen i fynd i'r afael â'r ffactorau sy'n achosi newid yn yr hinsawdd drwy symud tuag at economi carbon isel - hwyluso ffynonellau ynni adnewyddadwy a charbon isel ar bob graddfa;

lleihau'r risg i ddatblygiadau ar dir sy'n agored i lifogydd neu ar dir cyfagos, neu'r risg a ddaw yn eu sgîl;

chwarae rôl briodol i hwyluso safonau adeiladau cynaliadwy;

cefnogi mesurau sy'n caniatáu i'r dreftadaeth naturiol addasu i effeithiau newid yn yr hinsawdd;

gwneud y defnydd gorau posibl o adnoddau adnewyddadwy.

2.4Bydd newid yn yr hinsawdd yn arwain at oblygiadau sylweddol o bosibl o ran yr amgylchedd, yr economi a chyfiawnder cymdeithasol

ac oni eir i’r afael ag ef, bydd cynllunio ar gyfer cynaliadwyedd yn amhosibl.

Ynni Adnewyddadwy

2.5Dylai awdurdodau cynllunio lleol hwyluso’r gwaith o ddatblygu pob math o fesurau ar gyfer ynni adnewyddadwy, effeithlonrwydd ynni ac arbed ynni sy'n gweddu i fframwaith datblygu cynaliadwy.

2.6Awdurdodau Cynllunio Lleol sy’n gyfrifol am benderfynu ar geisiadau cynllunio ar gyfer prosiectau ynni adnewyddadwy o dan 50MW. Dylai awdurdodau cynllunio lleol wneud penderfyniadau yn unol â'u cynllun datblygu oni bai bod amgylchiadau perthnasol lleol yn awgrymu fel arall. Mae’r Polisi Cynllunio Cenedlaethol yn ystyriaeth berthnasol allweddol ar gyfer awdurdodau cynllunio lleol.

2.7Nodir polisïau a chanllawiau cynllunio cenedlaethol ar gyfer ynni adnewyddadwy yn 'Polisi Cynllunio Cymru' a TAN8. Daeth yr ysgogiad ar gyfer diweddaru'r polisi cynllunio ynni adnewyddadwy yn 2005, yn sgîl Cytundeb Kyoto a Datganiad Polisi Ynni Llywodraeth y Cynulliad a nododd yr angen i hyrwyddo ynni adnewyddadwy ymhellach yng Nghymru drwy bennu targedau ar gyfer allbwn ynni adnewyddadwy. Rôl polisi cenedlaethol oedd cymryd y targedau hyn ac ystyried y ffyrdd gorau o'u cyflawni drwy'r system gynllunio. Wedi'i llywio gan dystiolaeth a gasglwyd yn annibynnol, clustnododd Llywodraeth y Cynulliad Ardaloedd Chwilio Strategol yn ucheldiroedd Cymru lle y gellid crynhoi datblygiadau ffermydd gwynt newydd.

2.8Ystyriwyd mai’r polisi o grynhoi datblygiad yn ofodol oedd fwyaf addas gan ei fod yn cynnig atebion strategol ar gyfer uwchraddio’r grid a gwella trafnidiaeth na fyddai'n digwydd fel arall pe byddai'r polisi ond yn gofyn am ddull yn seiliedig ar feini prawf. Y bwriad wrth glustnodi Ardaloedd Chwilio Strategol oedd cyfyngu ar d datblygiadau ffermydd gwynt niferus ar raddfa fawr yng ngweddill ucheldir Cymru.

2.9Mae polisi cenedlaethol yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdodau cynllunio lleol hynny sy'n cynnwys rhan o Ardal Chwilio Strategol, neu sy'n rhan o Ardal o’r fath, gydnabod yr Ardaloedd Chwilio Strategol fel y'u nodir yn TAN 8. Os cynhaliwyd proses fireinio, dylid dangos y diwygiadau hyn yn y Cynllun Datblygu Lleol. Gall awdurdodau cynllunio lleol wneud mân ddiwygiadau i’r ffiniau i adlewyrchu amgylchiadau lleol ond ni ddylai unrhyw ddiwygiad amharu ar y gwaith o gyflawni targedau ynni adnewyddadwy Llywodraeth y Cynulliad. Yn absenoldeb cynllun datblygu cyfredol mae’r polisi cynllunio cenedlaethol yn ystyriaeth berthnasol bwysig o ran penderfyniadau ar geisiadau cynllunio unigol.

2.10Dengys gwaith ymchwil diweddar a gomisiynwyd gan Lywodraeth y Cynulliad (Arup) bod 2300MW o brosiectau gwynt ar y tir yn cael eu datblygu yn yr Ardaloedd Chwilio Strategol ac o'u hamgylch ar hyn o bryd, ac mae'r rhain bron i gyd wedi dechrau ers cyhoeddi’r polisi cynllunio cenedlaethol a TAN 8 yn 2005. Dengys yr ymchwil hefyd y dylid gallu gosod tua 2000MW o gapasiti cronnol erbyn 2015-17. Byddai hyn yn rhagori ar y targedau a bennwyd yn y Datganiad Polisi Ynni.

2.11Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi rhoi cymorth ariannol uniongyrchol i'r awdurdodau cynllunio lleol sy'n ymdrin â cheisiadau ar gyfer prosiectau ffermydd gwynt dros 50MW yn yr Ardaloedd Chwilio Strategol nad ydynt yn cael incwm ffioedd ar eu cyfer. At hynny mae Llywodraeth y Cynulliad yn gweithio gyda rhanddeiliaid, gan gynnwys awdurdodau lleol, i geisio mynd i'r afael â rhwystrau eraill i gyflawni'r polisi drwy, er enghraifft, geisio sefydlu rhwydwaith o briffyrdd strategol ar gyfer symud cydrannau tyrbinau.

2.12Ar ôl cyhoeddi Chwyldro Carbon Isel - Datganiad Polisi Ynni Llywodraeth Cynulliad Cymru (2010), mae Llywodraeth y Cynulliad wrthi'n ymgynghori ar newidiadau i'r polisi cynllunio cenedlaethol ar gyfer ynni adnewyddadwy er mwyn sicrhau bod y system gynllunio yn gallu helpu i gyflawni ein dyheadau o ran ynni. Cefnogwyd yr ymgynghoriad gan becyn o ymchwil a chanllawiau ymarfer ar gynllunio ar gyfer ynni adnewyddadwy.

## 3.Tai Fforddiadwy

3.1Nodir polisi a chanllawiau cynllunio Llywodraeth y Cynulliad ar dai fforddiadwy yn:

Polisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 3, Gorffennaf 2010) Pennod 9 Tai

Nodyn Cyngor Technegol 2, Cynllunio a Thai Fforddiadwy (2006)

Nodyn Cyngor Technegol 6, Cynllunio ar gyfer Cymunedau Gwledig Cynaliadwy (2010)

3.2Ymysg y ffactorau allweddol sy’n llywio polisi mae ymrwymiad "Cymru'n Un" i gyflenwi 6,500 o dai fforddiadwy rhwng 2007 a 2011, adolygiad Essex o dai fforddiadwy yng Nghymru (2008) a’r Strategaeth Dai Genedlaethol 'Gwella Bywydau a Chymunedau - Cartrefi yng Nghymru' (2010).

3.3Mae polisi cynllunio yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cynllunio lleol wneud y canlynol:

cynnwys targed tai fforddiadwy yn eu cynllun datblygu lleol sy'n deillio o'u hasesiad o'r farchnad dai leol (dylai'r targed hefyd ystyried argaeledd cyllid, gan gynnwys cymhorthdal cyhoeddus, a hyfywedd safleoedd o ran datblygu);

dangos sut y caiff targedau eu cyflawni drwy ddefnyddio dulliau polisi a nodir yn y CDLl;

monitro cyflenwad yn erbyn y targed.

3.4Mae TAN 2, "Cynllunio a Tai Fforddiadwy", yn darparu canllawiau ar y dulliau polisi, yn benodol ar bennu trothwy ar gyfer safleoedd er mwyn cynnwys elfen tai fforddiadwy a thargedau ar gyfer safleoedd penodol. Mae'r polisi hefyd yn rhoi'r dewis i awdurdodau glustnodi safleoedd bach ar gyfer hyd at 100% o dai fforddiadwy lle y cefnogir hyn gan dystiolaeth o angen.

3.5Cyflwynwyd y polisi cynllunio presennol ar dai fforddiadwy gyda'r bwriad o gynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy a ddarperir drwy'r system gynllunio ac mewn ymateb i bryder nad oedd yr angen am dai fforddiadwy yn cael ei ddiwallu gan yr hyn roedd yr awdurdodau lleol yn ei gyflawni. Cefnogwyd y safbwynt hwn gan dystiolaeth o waith ymchwil a nododd nad oedd awdurdodau'n gwneud defnydd llawn o'r adnoddau ar gael iddynt a bod hyn yn digwydd yn rhannol am nad oedd digon o dystiolaeth gadarn ar gael o'r angen am dai ar y lefel leol.

3.6Datblygwyd y polisi â mewnbwn gan gyfranwyr ledled y sector tai, gan gynnwys adeiladwyr tai, llywodraeth leol, cymdeithasau tai a benthycwyr, a bu'n destun ymgynghoriad cyhoeddus a ysgogodd ymateb eang. Arweiniodd at bolisi a chanllawiau cynllunio sy'n nodi polisïau tai fforddiadwy mewn ffordd glir, gan gynnwys system ar gyfer monitro cynnydd a sicrhau cyflenwad digonol o dir ar gyfer tai.

3.7Ategwyd y polisi cynllunio diwygiedig gan ganllawiau cynhwysfawr ar gyfer awdurdodau lleol ar baratoi asesiadau o'r farchnad dai leol er mwyn darparu sail dystiolaeth i gyflenwi tai fforddiadwy fel rhan o ofynion tai ehangach. At hynny, cyhoeddwyd y Pecyn Cymorth Tai Fforddiadwy a oedd yn dwyn yr holl elfennau hyn ynghyd drwy egluro'r adnoddau a'r pwerau sydd ar gael i awdurdodau lleol er mwyn cyflenwi tai fforddiadwy.

3.8Ers 2006 mae Llywodraeth y Cynulliad wedi bod yn gweithio gydag awdurdodau lleol i roi'r polisi diwygiedig ar waith. Yn 2007 cynhaliwyd cyfres o seminarau hyfforddi ar gyflenwi tai fforddiadwy drwy'r system gynllunio ar gyfer swyddogion cynllunio a thai awdurdodau lleol. Roedd y rhain yn cynnwys sesiynau ar hyfywedd datblygiadau. Aeth 130 o gynrychiolwyr i'r tri seminar hyn. Cynhaliwyd seminarau cyfatebol ar gyfer cynghorwyr ar y cyd â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Yn 2008 ariannwyd cyfres o seminarau hyfforddi rhanbarthol gennym ar gyfer swyddogion awdurdodau lleol ar negodi cytundebau adran 106, mewn ymateb i geisiadau yn seminarau 2007. Aeth 79 o gynrychiolwyr i'r seminarau hyn, a chynrychiolwyd pob un o'r awdurdodau lleol.

3.9Yn 2008 cyhoeddwyd canllawiau arfer gorau ar gyfer awdurdodau lleol ar ddefnyddio cytundebau adran 106 i gyflenwi tai fforddiadwy. Mae'r rhain yn rhoi canllaw cam wrth gam ar ddatblygu, negodi a gweithredu cytundebau adran 106 yn well. Maent hefyd yn cynnwys canllawiau ar economeg datblygu a defnyddio arfarniadau hyfywedd. Cyhoeddwyd canllawiau atodol ychwanegol ym mis Medi 2009 sy'n trafod defnyddio cytundebau adran 106 yn ystod y dirywiad economaidd.

3.10Yn 2009 cyflwynwyd Datganiadau Cyflenwi Tai Fforddiadwy er mwyn ceisio sicrhau bod awdurdodau lleol yn mynd i'r afael â'u cyflenwad o dai fforddiadwy drwy sefydlu targedau a pholisïau ar gyfer cyflenwi tai fforddiadwy cyn mabwysiadu'r CDLl. O ganlyniad, mae pob awdurdod lleol bellach wedi pennu targed ar gyfer cyflenwi tai fforddiadwy rhwng 2007 a 2011; ar ôl hyn dylai'r CDLl bennu targedau ar gyfer cyfnod y cynllun.

3.11At hynny yn 2009, cyflwynwyd system gasglu data newydd er mwyn monitro'r cyflenwad tai fforddiadwy ledled Cymru. Mae hon yn darparu data cynhwysfawr ar yr holl ffynonellau o dai fforddiadwy ychwanegol, gan gynnwys data ar gyfer pob awdurdod lleol. Dengys yr ystadegau hyn bod y cyflenwad tai fforddiadwy wedi cynyddu ers cyflwyno'r polisi diwygiedig yn 2006. Dros y ddwy flynedd rhwng 2007/08 a 2008/09 cafodd cyfanswm o 4,235 o dai fforddiadwy ychwanegol eu cyflenwi ledled Cymru - 65% o darged "Cymru'n Un "o 6,500. At hynny, cyflenwyd tua 50% yn fwy o dai fforddiadwy yn 2008/09 nag yn 2007/08. Dengys yr ystadegau hyn hefyd y cyflenwyd 27% o'r holl dai fforddiadwy ychwanegol drwy rwymedigaethau cynllunio, ac unwaith eto cyflenwyd tua 50% yn fwy yn 2008/09 nag yn 2007/08.

3.12Eleni atgyfnerthwyd y polisi tai fforddiadwy mewn ardaloedd gwledig ymhellach yn fersiwn diwygiedig TAN6, sef "Cynllunio ar gyfer Cymunedau Gwledig Cynaliadwy". Mae hwn yn darparu canllawiau pellach ar sut y gellir cyflenwi tai fforddiadwy mewn ardaloedd gwledig ac mae'n annog awdurdodau cynllunio lleol i ymgysylltu â'r gymuned leol, tirfeddianwyr, swyddogion galluogi tai gwledig a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig er mwyn datblygu safleoedd ar gyfer tai fforddiadwy i ddiwallu anghenion lleol. Mae'r canllawiau diwygiedig hyn wedi ystyried adroddiad Comisiwn Sefydliad Joseph Rowntree ar "Dai Gwledig yng Nghymru" yn 2008 ac Adolygiad Essex ar dai fforddiadwy.

### 4.Adfywio / Datblygu Economaidd

4.1Mae polisïau cynllunio Llywodraeth y Cynulliad o ran adfywio a datblygu economaidd yn cynnwys:

Polisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 3, Gorffennaf 2010) Pennod 7 Cynnal yr Economi

TAN 3 Parthau Cynllunio Syml (1996)

TAN 6 Cynllunio ar gyfer Cymunedau Gwledig Cynaliadwy (2010)

4.2Ymysg y ffactorau allweddol sy'n llywio polisi mae polisi datblygu economaidd Llywodraeth y Cynulliad, gan gynnwys 'Cymru: Economi yn Ffynnu' (sydd bellach wedi'i ddisodli gan 'Adnewyddu'r Economi: Cyfeiriad Newydd'), ac arian Ewropeaidd (Amcan 1, Amcan 2 a'r Cynllun Datblygu Gwledig).

4.3Amcanion Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer datblygu economaidd a nodir yn PCC yw:

- gwella llwyddiant economaidd ardaloedd trefol a gwledig, gan helpu busnesau i fod mor gystadleuol â phosibl;
- cefnogi menter ac osgoi gosod beichiau diangen ar fentrau;
- parchu ac annog amrywiaeth yn yr economi leol, er enghraifft annog ffermydd i arallgyfeirio mewn ardaloedd gwledig a hyrwyddo datblygiad defnydd cymysg mewn ardaloedd trefol;

• hyrwyddo’r defnydd o dechnolegau newydd a all ddarparu cyfleoedd newydd;

• sicrhau bod datblygiad ar gyfer menter a chyflogaeth yn unol ag egwyddorion cynaliadwyedd ac yn parchu'r amgylchedd o ran ei leoliad, graddfa a chynllun, yn enwedig er mwyn mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd.

4.4Dylai awdurdodau cynllunio lleol lunio a gweithredu polisïau cynllunio ar gyfer busnes a datblygiadau eraill sy'n creu cyflogaeth a chyfoeth. Dylent roi ystyriaeth arbennig i anghenion busnesau bach a chanolig, yr economi werdd a mentrau yn yr economi gymdeithasol a all helpu i hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol.

4.5Dylai awdurdodau cynllunio lleol sicrhau'r canlynol:

• bod digon o dir sy'n addas i'w ddatblygu at ddibenion menter a chyflogaeth ac a wasanaethir yn dda gan seilwaith yn cael ei ddynodi ar gyfer cyflogaeth er mwyn diwallu anghenion a nodwyd ac anghenion nas nodwyd hyd yn hyn;

• bod datblygiadau newydd at ddibenion menter a chyflogaeth yn cael eu lleoli a’u gweithredu yn unol ag egwyddorion cynaliadwyedd.

4.6Dylai'r system gynllunio fod yn effeithlon, yn effeithiol ac yn syml a dylai awdurdodau cynllunio lleol sicrhau bod eu prosesau cynllunio yn dryloyw er mwyn darparu mwy o sicrwydd ac eglurder ar gyfer datblygu busnes.

4.7Mae polisi cynllunio cenedlaethol ar gyfer datblygu economaidd wedi bod yn faes polisi cymharol sefydlog, ac ni chyflwynwyd newidiadau polisi sylweddol ers 2002.  Ers y dirywiad economaidd sylw, ac yn Uwchgynadleddau Economaidd Cymru Gyfan, mae sylw wedi troi at rôl y system gynllunio i helpu i adfer yr economi. Canolbwyntiwyd yn bennaf ar wella effeithlonrwydd y system rheoli datblygu yn hytrach na pholisi cynllunio. Cyhoeddwyd Datganiad Cabinet ym mis Rhagfyr 2008 a nododd fwriad Llywodraeth y Cynulliad i gynnal adolygiad annibynnol o'r broses ceisiadau cynllunio. Ystyriwyd casgliadau’r Astudiaeth i Archwilio’r Broses Ceisiadau Cynllunio yng Nghymru ac ymateb Llywodraeth y Cynulliad i'r argymhellion gan y Cyfarfod Llawn ym mis Mehefin eleni. Cafwyd cefnogaeth drawsbleidiol i gasgliadau'r adolygiad ac i Lywodraeth y Cynulliad am eu derbyn, gan gynnwys yr ymrwymiad i adolygu polisi cynllunio datblygu economaidd. Ategwyd yr ymrwymiadau hyn yn 'Adnewyddu'r Economi: Cyfeiriad Newydd’ hefyd.

4.8Mae gwaith wedi dechrau i adolygu a diweddaru ein polisi a chanllawiau cynllunio cenedlaethol presennol ar gyfer datblygu economaidd er mwyn sicrhau bod y polisi cynllunio cenedlaethol yn helpu i adnewyddu'r economi a’i fod yn addas at y diben o hyd. Mae prosiect ymchwil yn cael ei gomisiynu er mwyn gwerthuso effeithiolrwydd y polisi cynllunio presennol ar gyfer datblygu economaidd ac asesu gofynion polisi a chanllawiau cynllunio'r dyfodol yn erbyn 'Adnewyddu'r Economi: Cyfeiriad Newydd’. Bydd Grwp Cynghori Technegol o randdeiliaid allweddol, gan gynnwys cynrychiolwyr o'r gymuned fusnes, yn goruchwylio'r prosiect ymchwil ac yn llywio datblygiadau polisi.  Caiff polisi a chanllawiau diwygiedig eu cyhoeddi i ymgynghori arnynt yn ystod 2011.

### 5.1Cadwraeth Natur a Bioamrywiaeth:

5.1Mae polisïau cynllunio Llywodraeth y Cynulliad o ran bioamrywiaeth a chadwraeth natur yn cynnwys:

Polisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 3 Gorffennaf 2010) Pennod 5 - Gwarchod a Gwella’r Dreftadaeth Naturiol a’r Arfordir

Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 5 (Medi 2009) - Cynllunio a Chadwraeth Natur

5.2Amcanion Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer cadwraeth a gwella'r dreftadaeth naturiol yw:

hyrwyddo cadwraeth y dirwedd a bioamrywiaeth yn enwedig gwarchod bywyd gwyllt a chynefinoedd brodorol;

sicrhau bod gweithredu yng Nghymru yn cyfrannu at fodloni cyfrifoldebau a rhwymedigaethau rhyngwladol o ran yr amgylchedd naturiol;

sicrhau bod safleoedd â dynodiad statudol yn cael eu gwarchod a'u rheoli'n briodol;

diogelu rhywogaethau a warchodir;

hyrwyddo swyddogaethau a manteision priddoedd, ac yn arbennig eu swyddogaeth fel storfeydd carbon.

5.3Mae’r gofynion statudol allweddol yn cynnwys y canlynol:

Mae Deddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006 - Adran 40 (1) yn gosod dyletswydd ar bob awdurdod cyhoeddus, wrth arfer ei swyddogaethau, i ystyried gwarchod bioamrywiaeth, i’r graddau sy’n gyson â chyflawni’r swyddogaethau hynny’n briodol.

Mae Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010 - Rheoliad 9(5) yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod cymwys (gan gynnwys awdurdodau cynllunio lleol), wrth arfer ei swyddogaethau, ystyried gofynion y Gyfarwyddeb Cynefinoedd, i’r graddau y gellir effeithio arnynt drwy arfer y swyddogaethau hynny.

5.4Rhai egwyddorion cyffredinol:

Mae "cadwraeth natur" yn cyfeirio at warchod ffawna a fflora a nodweddion daearegol a geomorffaidd, eu diogelu, gwneud defnydd call ohonynt, eu rheoli mewn modd cynaliadwy a’u hadfer.

"Bioamrywiaeth" yw'r term a gymhwysir i amrywiaeth bywyd ar y ddaear. Mae'n disgrifio cyfoeth ac amrywiaeth popeth byw, o'r organeb ficrosgopig leiaf i'r goeden fwyaf.

**Rôl Hanfodol y System Gynllunio ym maes Cadwraeth Natur**

5.5Mae TAN 5 Cynllunio a Chadwraeth Natur yn darparu canllawiau ymarferol ar sut y dylai'r system cynllunio defnydd tir gyfrannu at warchod a gwella bioamrywiaeth a chadwraeth ddaearegol.

5.6Mae TAN 5 yn canolbwyntio ar gymhwyso'r gyfraith sy'n ymwneud â chynllunio a chadwraeth natur a'i heffaith o fewn y system gynllunio. Mae'n nodi egwyddorion allweddol o ran cynllunio cadarnhaol ar gyfer cadwraeth natur ac mae'n rhoi cyngor i awdurdodau cynllunio lleol ar baratoi ac adolygu cynlluniau datblygu, gweithdrefnau ar gyfer ymdrin â cheisiadau datblygu a sicrhau y caiff ystyriaethau o ran bioamrywiaeth a thirwedd eu hystyried yn gynnar.

5.7Mae TAN 5 yn dangos sut y gall awdurdodau cynllunio lleol, datblygwyr a rhanddeiliaid allweddol ym maes cadwraeth gydweithio i sicrhau gwaith datblygu mwy cynaliadwy nad yw'n arwain at golli treftadaeth naturiol ond sydd, yn hytrach, yn cymryd pob cyfle i'w gwella.

5.8I'r diben hwn, cynhaliwyd hyfforddiant ar gyfer awdurdodau cynllunio lleol, yr Arolygiaeth Gynllunio, Cyngor Cefn Gwlad Cymru a chwaraewyr allweddol eraill yn ystod mis Mawrth a Gorffennaf, gan ganolbwyntio ar eu rôl allweddol o ran cyflawni polisi cadwraeth natur Llywodraeth y Cynulliad yn TAN 5 a manteision ymgysylltu'n gynnar ar faterion bioamrywiaeth yn y broses rheoli datblygu. Cafodd yr hyfforddiant ganmoliaeth gan bawb a aeth i'r sesiynau am ei ymagwedd ymarferol a phragmatig at fodloni gofynion y Gyfarwyddeb Cynefinoedd.